COSVR555

Cadw, adfer neu gynnal a chadw teils wal a llawr

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â

1 dehongli gwybodaeth

2 mabwysiadu arferion gwaith diogel ac iach

3 dewis deunyddiau, cydrannau a chyfarpar

4 dewis, cydweddu, atgyweirio, adnewyddu, cynnal a chadw neu adfer waliau a lloriau teils neu fosaig presennol ar brosiectau cadwraeth neu adfer

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 dehongli'r wybodaeth a roddir am y gwaith a'r adnoddau i gadarnhau ei pherthnasedd

P2 cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a phenodol a chanllawiau swyddogol i wneud eich gwaith a chynnal arferion gwaith diogel

P3 dewis faint o adnoddau sydd eu hangen ac ansawdd gofynnol yr adnoddau hynny ar gyfer y dulliau gweithio

P4 cydymffurfio â gweithdrefnau'r sefydliad i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas

P5 cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir yn y contract i wneud y gwaith yn effeithlon yn unol â'r gofynion

P6 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a neilltuwyd yn unol â'r rhaglen waith

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Meini Prawf Perfformiad 1

Dehongli gwybodaeth

K1 pa weithdrefnau a ddatblygwyd gan y sefydliad i adrodd am **wybodaeth** amhriodol ac **adnoddau** anaddas, yn ogystal â'u cywiro, a sut i'w gweithredu

K2 pa fathau o **wybodaeth** sydd ar gael, beth yw eu ffynhonnell a sut i'w dehongli

K3 beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer datrys **problemau** â'r **wybodaeth** a pham mae'n bwysig eu dilyn

Meini Prawf Perfformiad 2

Arferion gwaith diogel

K4 faint o **wybodaeth** y mae'n rhaid i weithwyr ei deall i gydymffurfio â'r **ddeddfwriaeth** berthnasol a chyfredol **a chanllawiau swyddogol** a sut i'w chymhwyso

K5 sut y dylid ymateb i **argyfyngau** a phwy ddylai ymateb

K6 beth yw **gweithdrefnau diogelwch** y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol

K7 beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny

K8 pam a phryd y dylid defnyddio **cyfarpar diogelu personol**

Meini Prawf Perfformiad 3

Dewis adnoddau

K9 beth yw nodweddion, ansawdd, defnyddiau, cynaliadwyedd, cyfyngiadau a diffygion yr **adnoddau** a sut y dylid cywiro diffygion

K10 sut y dylid defnyddio'r **adnoddau** a sut i adrodd am unrhyw **broblemau** sy'n gysylltiedig â nhw

K11 beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis **adnoddau**, pam y cawsant eu datblygu a sut i'w defnyddio

K12 pa **beryglon** sy'n gysylltiedig â'r **adnoddau** a'r **dulliau gweithio** a sut i ddelio â'r rhain

Meini Prawf Perfformiad 4

Lleihau'r risg o ddifrod

K13 sut i **ddiogelu gwaith** rhag difrod a phwrpas diogelu

K14 pam y dylid **gwaredu gwastraff** yn ddiogel a sut i wneud hyn

Meini Prawf Perfformiad 5

Bodloni gofynion y contract

K15 sut i ymgymryd â **dulliau gweithio** i fodloni'r gofynion a sut i adrodd am **broblemau**

K16 sut i **gynnal a chadw** offer a chyfarpar

Meini Prawf Perfformiad 6

Amser a neilltuwyd

K17 beth yw'r **rhaglen** i'r gwaith gael ei wneud o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd a pham y dylid cadw at derfynau amser

Cwmpas/Ystod

Meini Prawf Perfformiad 1

1 dehongli lluniadau, gofynion, amserlenni, datganiadau dull a gwybodaeth gweithgynhyrchwyr sy'n gysylltiedig â'r gwaith sydd i'w wneud

Meini Prawf Perfformiad 2

2 osgoi risg drwy gydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am o leiaf ddau o'r dilynol

2.1 dulliau gweithio

2.2 defnyddio cyfarpar diogelu personol yn ddiogel

2.3 defnyddio cyfarpar mynediad yn ddiogel

2.4 defnyddio a storio deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel

Meini Prawf Perfformiad 3

3 dewis adnoddau sy'n gysylltiedig â'ch gwaith eich hun

3.1 deunyddiau, cydrannau a gosodiadau

3.2 offer a chyfarpar

Meini Prawf Perfformiad 4

4 diogelu'r gwaith, yn ogystal â'r ardal o'i gwmpas, rhag difrod mewn ffordd sympathetig

5 lleihau difrod a chynnal lle gweithio glân

6 gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth

Meini Prawf Perfformiad 5

7 dangos sgiliau mesur, gosod allan, gosod, gorffen, lleoli a sicrhau

8 defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol

9 dewis, cydweddu, atgyweirio, adnewyddu, adfer neu gynnal a chadw o leiaf bedwar o'r arwynebau teils neu fosaig dilynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir

9.1 waliau

9.2 lloriau

9.3 grisiau

9.4 patrymau neu fotiffau

9.5 bwâu, cromliniau neu gylchoedd

9.6 ciliau, siliau neu soffitiau

9.7 sianeli ac allfeydd lloriau

Meini Prawf Perfformiad 6

10 cwblhau'ch gwaith eich hun o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd i ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill a/neu'r cleient

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Gwaredu gwastraff

1 cyfrifoldebau amgylcheddol, gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

Argyfyngau

2 ymateb y gweithiwr i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol

2.1 tanau, gollyngiadau ac anafiadau

2.2 argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol

Peryglon

3 y rhai hynny a nodir drwy asesiad risg, fel rhan o ddull gweithio, yng ngwybodaeth dechnegol gweithgynhyrchwyr ac mewn rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

Gwybodaeth

4 lluniadau, gofynion, amserlenni, datganiadau dull, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, briffiau gwylio archaeolegol, cynlluniau a siarteri cadwraeth hanesyddol, deddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymwneud ag adeiladau

Deddfwriaeth a chanllawiau swyddogol

5 mae hyn yn ymwneud â chyfrifoldebau'r gweithiwr am ddamweiniau posibl a pheryglon i iechyd wrth weithio yn y gweithle, o dan lefel y tir, mewn lleoedd cyfyng, ar uchder, ag offer a chyfarpar ac â deunyddiau a sylweddau ac wrth symud/storio deunyddiau, codi a chario a defnyddio cyfarpar codi mecanyddol

Cynnal a chadw

6 gofal y gweithiwr am offer llaw a/neu offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol

Dulliau gweithio

7 cymhwyso gwybodaeth i sicrhau arferion, gweithdrefnau a sgiliau gwaith diogel mewn perthynas â'r dull/maes gwaith a'r deunyddiau a ddefnyddir i

7.1 symud, cydweddu a newid teils wal a llawr ceramig a naturiol presennol

7.2 symud, cydweddu a newid mosaigau presennol a newydd

7.3 gosod a gorffen arwynebau i gyd-fynd â'r arwynebau presennol

7.4 creu dyluniadau ar arwynebau afreolaidd, gan gynnwys grisiau, pennau grisiau, cromliniau, cylchoedd, elipsau ac onglau llym ac aflym

7.5 ffurfio ciliau, siliau a soffitiau (agoriadau drws a ffenestr)

7.6 ffurfio sianeli ac allfeydd

7.7 gosod trimiau ongl a chwyddgymalau

7.8 dilysu ffyrdd priodol o wneud y gwaith

7.9 nodi mannau sensitif

7.10 cynnal treftadaeth a chyfanrwydd archaeolegol

7.11 cynnal egwyddorion ymyrraeth leiaf a newidiadau gwrthdroadwy

7.12 rhoi'r gorau i weithio pan fydd angen dyfalu ac adrodd am ganfyddiadau

7.13 gwneud cofnod o'r gwaith a wnaed (ysgrifenedig, ffotograffig neu ddigidol)

7.14 nodi a/neu adrodd am ffawna a fflora sydd mewn perygl/yn cael eu gwarchod

7.15 symud deunyddiau sydd wedi dirywio a/neu sy'n amhriodol

7.16 cynnal a chadw strwythurau presennol

7.17 integreiddio cydrannau neu orffeniadau adeiladol presennol a newydd

7.18 storio deunyddiau y gellir eu hachub

7.19 defnyddio offer llaw, offer pŵer a chyfarpar

7.20 gweithio ar uchder

7.21 defnyddio cyfarpar mynediad

8 gwaith tîm a chyfathrebu

9 anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â chadw neu adfer teils llawr neu wal

Cyfarpar diogelu personol

10 defnydd galwedigaethol, mathau o gyfarpar a phwrpas pob math a sefyllfaoedd gwaith

Problemau

11 y rhai hynny sy'n codi o wybodaeth, adnoddau a dulliau gweithio

11.1 eich awdurdod eich hun i unioni sefyllfa

11.2 gweithdrefnau adrodd y sefydliad

Rhaglen

12 mathau o siartiau cynnydd, amserlenni ac amseroedd amcangyfrifedig

13 gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer adrodd am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith

Diogelu gwaith

14 diogelu gwaith rhag difrod a achosir gan weithgareddau cyffredinol yn y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd garw

Adnoddau

15 deunyddiau, cydrannau a chyfarpar mewn perthynas â niferoedd, ansawdd, meintiau a chynaliadwyedd mathau safonol a/neu arbenigol o

15.1 teils, mosaigau, adlynion, growtiau, deunyddiau selio, plastrau, tywod, sment, calch, gosodiadau, dodrefn ac eitemau ategol cysylltiedig

15.2 offer llaw a/neu bŵer a chyfarpar

16 dulliau o gyfrifo niferoedd, hyd, arwynebedd a gwastraff sy'n gysylltiedig â'r dull/gweithdrefn ar gyfer cadw, adfer neu gynnal a chadw arwynebau teils

Gweithdrefnau diogelwch

17 safle, gweithle, cwmni a gweithiwr

Cadw, adfer neu gynnal a chadw teils wal a llawr

Datblygwyd gan	CITB
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2009
Indicative Review Date	Mawrth 2022
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	ConstructionSkills [SgiliauAdeiladu]
RCU gwreiddiol	COSVR555
Galwedigaethau perthnasol	Llorio a Theilsio Waliau
Cyfres/Set	Sgiliau Treftadaeth (Adeiladu)
Geiriau Allweddol	Cadw; Adfer; Cydweddu; Teils; Mosaigau